Estyn



# Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Bro Hyddgen

## Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2024

gan Estyn, Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

# Crynodeb

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion Ysgol Bro Hyddgen agweddau cadarnhaol iawn at fywyd ysgol ac maent yn ymfalchïo mewn bod yn rhan ohoni. Mae disgyblion o bob oed yn hynod gwrtais ac yn barchus tuag at oedolion ac ymwelwyr. Maent yn cyd-chwarae neu'n cymdeithasu'n hwyliog yn ystod amseroedd egwyl a chinio gan fwynhau cwmni ei gilydd. Mae hyn yn nodwedd arbennig.

Mae staff yn blaenoriaethu lles disgyblion ac yn arddel ethos cynhaliol a gofalgar. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo'n hapus yn yr ysgol ac yn barod i droi at staff am gymorth, pe byddai angen. Ceir trefniadau cadarn i helpu plant dosbarth Derbyn i setlo'n dda ar gychwyn eu bywyd ysgol a nifer o weithgareddau buddiol i ddisgyblion Blwyddyn 6 a'u cyfoedion o ysgolion eraill lleol i'w paratoi at fywyd yn yr adran uwchradd. Mae'r rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol yn cynnwys ystod dda o brofiadau dysgu sy'n rhoi cymorth i ddisgyblion wneud penderfyniadau iach o ran eu ffordd o fyw, gan gynnwys sut i gadw eu hunain yn ddiogel ar-lein. Rhoddir sylw parhaus i nodi pwysigrwydd dod i'r ysgol yn rheolaidd ymysg disgyblion a'u teuluoedd ond mae lefelau presenoldeb yn parhau'n isel o'u cymharu â'r cyfnod cyn y pandemig.

Ar draws yr ystod oedran, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd digonol yn eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth ac mae ychydig ohonynt yn gwneud cynnydd cryf dros amser. Fodd bynnag, o ganlyniad i ddiffygion yng nghynllunio strategol arweinwyr a sut mae athrawon yn cynllunio eu gwersi a thasgau, nid yw disgyblion yn cyflawni cystal ag y gallent. Mae'r gefnogaeth a roddir i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn fuddiol, gan gynnwys dosbarthiadau yn uned 'Y Gelli', ond nid yw'r ddarpariaeth ar gyfer y disgyblion mwy abl yn ddigon effeithiol. Nid yw'r trefniadau rheoli presennol yn caniatáu i arweinwyr gael trosolwg cynhwysfawr o'r continwwm ym mhrofiadau dysgu disgyblion wrth iddynt symud trwy'r ysgol nac o'r ddarpariaeth ysgol-gyfan ar gyfer datblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol.

Yn ddiweddar, mae arweinwyr wedi rhoi ffocws priodol ar gryfhau trefniadau i staff ddatblygu'n broffesiynol ac mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar ychydig o feysydd pwysig, fel ansawdd yr adborth ar waith disgyblion. Mae'r cynllun gwella ysgol ynghyd â chynlluniau gwella meysydd penodol yn cynnwys nifer o feysydd allweddol sydd angen eu datblygu. Serch hyn, nid yw'r prosesau rheoli llinell yn ddigon cadarn i alluogi arweinwyr i ddwyn staff yn atebol am eu gwaith.

Mae cyflwr yr adeiladau, diogelwch y safle a threfniadau goruchwylio yn yr adran uwchradd yn peri pryder. Trosglwyddwyd pryderon penodol y tîm arolygu i awdurdod addysg lleol Powys ac i'r llywodraethwyr.

# Argymhellion a beth sy'n digwydd nesaf

**Rydym wedi gwneud chwech argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella:**

**A1 Mynd i'r afael â'r materion diogelu a adnabuwyd yn ystod yr arolygiad**

**A2 Gwella presenoldeb**

**A3 Gwella ansawdd yr addysgu**

**A4 Cryfhau'r arweinyddiaeth strategol a'r ddarpariaeth ar gyfer datblygiad cynyddol disgyblion yn eu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol**

**A5 Sefydlu trefniadau rheolaeth llinell cadarn a chyson er mwyn sicrhau bod arweinwyr yn dwyn staff yn atebol am eu gwaith ac yn rhoi ystyriaeth lawn i ddatblygiad disgyblion mewn ysgol bob oed**

**A6 Cryfhau prosesau hunanwerthuso a chynllunio gwelliant gan roi sylw clir i effaith y ddarpariaeth ar ddeilliannau disgyblion, ynghyd â'r cynnydd a wnânt yn eu dysgu a'u medrau**

**Yn unol â Deddf Addysg 2005, mae PAEF o'r farn bod angen gwelliant sylweddol ar yr ysgol hon. Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i ddangos sut bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd tîm bach o arolygwyr Estyn yn ymweld â'r ysgol i fonitro cynnydd tua 12-18 mis ar ôl cyhoeddi'r adroddiad arolygu.**

**Os hoffech ddarllen mwy am werthusiad Estyn o'r ysgol, dilynwch y ddolen hon i'r adroddiad llawn.**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 30/01/2025

Sylwer, efallai na fydd y ffotograffau sy'n cael eu dangos yn rhai o'r ysgol sy'n destun yr adroddiad hwn.